

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN



Dydd Llun, 20 Ionawr, 2025

09:00-11:30y.b

Busnes@LlandrilloMenai; Ffordd Penlan; Parc Menai; Bangor; LL57 4HJ

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Andrew Edwards – Cadeirydd	Prifysgol Bangor
Aled Jones-Griffith (AJG)	Grŵp Llandrillo-Menai
Cyng. Menna Trenholme (MT)	Cyngor Gwynedd
Dylan Williams (DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Robin Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Geraint Owen (GO)	Cyngor Gwynedd
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dafydd Gwynne (DG)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bethan Millington (BM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams (SW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lyndsey Campbell-Williams (LC-W)	Medrwn Môn
Ceri Christian-Mullineux (CC-M)	Llywodraeth Cymru
Iwan Jones (IJ)	Parc Cenedlaethol Eryri
Charlotte Smith (ChS)	Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn mynychu:	
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Claire Burgess (CB)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Bethan Evans (BE) – Cyfieithydd	Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriadau:	
Tracey Williams (TW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Stewart Forshaw (SF)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Llinos Davies (LID)	Heddlu Gogledd Cymru
Andy Jones (AJ)	Gwasanaeth Prawf
Cyng. Nia Jeffreys (NJ)	Cyngor Gwynedd
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Catrin Thomas (CT)	Gwasanaeth Prawf
Claire Sykes (CS)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Arwel Hughes (AH)	Heddlu Gogledd Cymru
Rebecca Colley (RC)	Rhwydwaith Cyd-Gynhyrchu
Justin Hanson (JH)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jonathan Cawley (JC)	Parc Cenedlaethol Eryri

Pwyntiau Gweithredu:

- Grant Rhanbarthol** – blaen raglen ag amserlen arfaethedig i'w gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.
- Sefydliad Bevan** – Briff wedi ei gytuno gan yr aelodau a chaniatâd i'r Tîm Cefnogi i drefnu'r hyfforddiant.
- Siarter Teithio Llesol:**
 - Y Tîm Cefnogi i gefnogi Aelodau'r Bwrdd sydd yn arwyddo'r Siarter i baratoi am y cyfarfod arbennig gyda Ken Skates (13/03/25).
 - Y Tîm Cefnogi i rannu'r trefniadau a rhaglen i'r digwyddiad mfaph.
- Pwysa Iach / Byw yn Iach** – gofyn i'r Is-grŵp PI llunio rhestr wirio a rhaglen waith i'r Bwrdd ddilyn
- Peilot Niwbwrch** - Cynigwyd bod papur byr yn nodi unrhyw wersi i'w dysgu o'r peilot i'w rannu'n rhanbarthol.
- Aelodaeth y Bwrdd** - Tîm Cefnogi i geisio enwebiad o'r Bartneriaeth Dai – dal i ddisgwyl ymateb.
- Iaith Gymraeg - Prosiect nesaf** – Briff i'w addasu i adlewyrchu sylwadau'r aelodau ac yna ei gyflwyno mewn cais am arian rhanbarthol.
- Mapio bygythiadau a heriau** - Tîm Cefnogi i ddrafftio memorandwm a thempled i'r aelodau ei ddefnyddio i hwyluso a chefnogi cydweithio ar hyn.

Cofnod o'r drafodaeth:

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1.	Cafwyd cyfle i rwydweithio cyn y cyfarfod.		
2.	Croeso ac Ymddiheuriadau Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.		
3.	Cofnodion (i'w cymeradwyo) Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion ar gyfer cyfarfod 18/09/24 a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau. Grant rhanbarthol: Gwybodaeth bellach i'w anfon ymlaen. Y Grant hefyd i'w drafod yn Eitem 8. Sefydliad Bevan: Cynnig wedi'i gyflwyno i'r aelodau gyda thrafodaeth bellach yn Eitem 7 o'r cyfarfod.	Tîm Cefnogi Tîm Cefnogi	

4.	<p>Cynllun Llesiant 2023-2028:</p> <p>a) <u>Cynllun Cyflawni:</u> Adroddiad Statws RAG wedi'i rannu gydag aelodau cyn y cyfarfod a thrafodaeth fer ar y gweithrediadau.</p> <p>b) <u>Diweddariadau is-grwpiau / grwpiau Tasg a Gorffen:</u></p> <p><u>Siarter Teithio Llesol ac Ymweliad Ken Skates:</u> Cafwyd diweddariad ar waith yr is-grŵp a nodwyd bod cydweithio da.</p> <p>Cyfarfod arbennig y Bwrdd gyda Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth wedi ei drefnu ar 13/03/25 yn Llangefni. Bydd y sefydliadau yn arwyddo yn gyntaf ac yna cyfle i Aelodau'r Bwrdd drafod materion gyda'r Gweinidog fel y trydydd bont, heriau trafndiaeth gwledig a phryder bod cyllidebau tymor byr yn golygu nad oes modd ymateb yn hirdymor i sialensau lleol.</p> <p>Gwahoddiad eisoes wedi mynd allan i aelodau'r Bwrdd ar gyfer y digwyddiad hwn.</p> <p>Argymhelliad i'r sefydliadau sy'n arwyddo / wedi arwyddo'n barod i ddarparu 3-4 sleid yn dangos cynllunio ar waith / hoffi ei roi ar waith er mwyn rhoi persbectif yr ardal leol o'r hyn y gallwn ei gyflawni.</p> <p>Tîm Cefnogi i ddarparu templed i'w rannu er mwyn casglu'r wybodaeth.</p> <p>Agenda i'w rannu gydag aelodau'r Bwrdd o flaen llaw, a bydd y Tîm Cefnogi hefyd yn rhannu amlinelliad gyda Llywodraeth Cymru o flaen llaw.</p> <p><u>Pwysau Iach / Byw yn Iach:</u> Nodwyd bod y cyfarfod nesaf ar 24/01/25 a bod rhai agweddau wedi llithro, ond y bwriad yw llunio rhestr wirio a rhaglen waith.</p> <p><u>Newid Hinsawdd</u> Mae cytundeb i fod yn gwneud hyn yn rhanbarthol, gydag arian grant rhanbarthol ar gael i gefnogi.</p> <p><u>Prosiect Niwbwrch</u> Nodwyd bod diweddariad ar y prosiect i'w gael yn y pecyn sydd wedi'i anfon at yr Aelodau. Cyfeiriwyd at y cydweithio gwych rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Ynys Môn.</p> <p>Bydd cynlluniau ar gyfer y flwyddyn mewn lle erbyn Pasg, gyda phawb yn glir o ran disgwyliadau a deilliannau. Camau mawr wedi'u cymryd ac yn amlwg y gefnogaeth yno.</p> <p>Ategwyd mai peilot yw'r prosiect a'i fod yn fodel y gellid ei ddyblygu yn unrhyw le. Mae arian neilltuol ar gael i ddatrys problem yn y gymuned.</p>	<p>Pawb</p> <p>Tîm Cefnogi</p>	<p>Cgbm</p> <p>cgbm</p>
----	---	--	---------------------------------------

	<p>Cynigwyd bod papur (2 dalen) yn cael ei roi at ei gilydd yn nodi unrhyw wersi i'w dysgu o'r peilot a fyddai hefyd yn ysgogi eraill i feddwl yn ehangach. Cyfeiriwyd a diolchwyd i Barc Cenedlaethol Eryri am rannu eu profiadau am sefyllfa debyg ym Mhen y Pass.</p>		
5.	<p>Aelodaeth y Bwrdd: Nododd y Cadeirydd ei ddiolchiadau i Aled Jones-Griffith am ei wasanaeth fel Cadeirydd a hefyd i Dyfrig ap Siencyn am ei wasanaeth fel Is-Gadeirydd y Bwrdd, gan ddymuno'n dda i'r ddau.</p> <p>Diolchodd i bawb sydd wedi symud ymlaen am eu cefnogaeth i'r Bwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Is-Gadeiryddiaeth ac addasu'r Cylch Gorchwyl</u> Cynigwyd bod yr Is-Gadeiryddiaeth yn symud o un arweinydd Cyngor i'r llall, hynny yw eu bod yn cymryd eu tro. Cytunwyd i newid hyn yn y Cylch Gorchwyl (T.11) 4.2. <p>Enwebwyd a derbyniwyd mai Gary Pritchard, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn fydd Is-Gadeirydd newydd y Bwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Enwebiad Partneriaeth Dai</u> Nodwyd ein bod yn parhau i ddisgwyl enwebiad gan y Bartneriaeth Tai ar gyfer y Bwrdd. Tîm Cefnogi i ddilyn hyn fyny. 	Tîm Cefnogi	cgbm
6.	<p>Iaith Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Gweithlu Dwyieithog Cyfeiriwyd at y prosiect sydd eisoes wedi'i gwblhau a bod y Bwrdd wedi derbyn cyflwyniad yn ystod y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod y Canllaw Denu Ymgeiswyr â Sgiliau Gymraeg wedi'i rannu gyda sefydliadau'r Bwrdd. <p>Roedd aelodau'r Bwrdd wedi nodi eu dymuniad i'r rhan nesaf o'r prosiect fod yn canolbwyntio ar llesiant staff a gallu i siarad Gymraeg yn y gwaith, chwalu'r mythau o gwmpas gweithio i sefydliadau cyhoeddus a hefyd ychwanegu pwyslais ar ddysgwyr Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Nesaf <p>Rhannwyd copi drafft o'r brîff ar gyfer rhan nesaf y Prosiect Gweithlu Dwyieithog gyda'r aelodau (Tud. 15). Seiliwyd y brîff ar argymhellion gan aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod diwethaf (18/09/24).</p> <p>Argymhellwyd bod yr Is-Grŵp Iaith yn gweithio ar brosbectws digidol, sy'n addas ar gyfer sefydliadau'r Bwrdd, yn trafod y math o swyddi a gyrfaedd o fewn y sector gyhoeddus. Cadarnhawyd y byddai'r grant rhanbarthol ar gael i dalu am y gwaith hwn a gofynnwyd am ymrwymiad y Bwrdd.</p> <p>Adnabod yr heriau a phryderon a darparu ffordd o'u datrys a gwneud rhywbeth amdanynt. Nodwyd bod angen hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith gan ddod â'r holl waith da sy'n digwydd ymhob sefydliad at ei gilydd a'i arddangos. Crybwyllwyd y dylid cydweithio â Gyrfa Cymru os yw'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu yn cael ei anelu at draws-doriad o gynulleidfa er mwyn osgoi dyblygu ond hefyd o ran cymorth i hyrwyddo'r negeseuon ymhellach.</p> 		

7.	<p>Gweithdy Sefydliad Bevan Cyfeiriwyd at dudalen 16 yn y Cofnodion lle cyflwynir y brîff diwygiedig. Mae wedi'i newid i adlewyrchu'r adborth.</p> <p>Tîm Cefnogi i edrych ar ddyddiadau posibl er mwyn trefnu'r gweithdy / gweithdai cyn yr Haf.</p>	Tîm Cefnogi	cgbm
8.	<p>Grant Rhanbarthol Nodwyd bod y Bwrdd yn cydlynu atebion a chynigion ar draws y Gogledd a bod yno £103,000 yn flynyddol ar gael.</p> <p>Cyfle i ystyried prosiectau a chanolbwyntio ar ymgynghori, cefnogi y Cynllun Llesiant ac ati.</p> <p>Bwriad i flaen-raglennu gwaith am y flwyddyn ariannol nesaf.</p>	Tîm Cefnogi	cgbm
9.	<p>Mapio bygythiadau a heriau i wasanaethau cyhoeddus a llesiant ein cymunedau yn sgil toriadau ariannol parhaus, <u>ac adnabod cyfleon i gydweithio.</u></p> <p>Pob sefydliad wedi cael cyfle i amlinellu'r sefyllfa ac effeithiau uchel a thrafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal. Cafwyd trafodaeth am y cyfle i gydweithio, rhannu adnoddau a ffyrdd posibl o gefnogi ein gilydd fel sefydliadau cyhoeddus drwy'r Bwrdd.</p> <p>Tim Cefnogi i ddrafftio memorandwm a templed i aelodau ddefnyddio i hwyluso a chefnogi cydweithio ar hyn.</p>	Tîm Cefnogi	cgbm
10.	<p>Cais Derek Walker Cytunwyd i estyn gwahoddiad i Derek Walker i un o gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn yma. Bydd yn gyfle i ddangos pa mor gydweithredol yw'r Bwrdd a pha mor ddefnyddiol yw'r Gymraeg, sef ei fod yn iaith gwaith.</p> <p>Cynigwyd y byddai'n bosibl ei herio ar y Ddeddf a rhoi fframwaith tebyg i'r un sydd ar gyfer ymweliad Ken Skates.</p>	Tîm Cefnogi	cgbm
	<p>Dyddiad cyfarfod llawn nesaf: 11/04/25 Cyfarfod arbennig gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth, Ken Skates – 13/03/25.</p>		